

Cyflwyniad

Mae yna ddwy adran yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Mae yna'r elfen arferol, a elwir yn y **Brif Adran** ac mae yna'r **Adran 50/50**. Y **Brif Adran** yw ble rydych yn talu eich cyfraniadau arferol a derbyn cronïad pensiwn arferol, tra o dan yr **Adran 50/50**, rydych yn talu **hanner** eich cyfraniadau arferol i adeiladu **hanner** eich pensiwn arferol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Beth fuasai fy nghyfradd cyfrannu o dan yr Adran 50/50?

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cyfraddau cyfrannu yn y **Brif Adran** a'r **Adran 50/50**:

Cyflog Pensiynadwy Gwironeddol	Cyfraniad Brif Adran	Cyfraniad Adran 50/50
Hyd at £14,100	5.50%	2.75%
£14,101 i £22,000	5.80%	2.90%
£22,001 i £35,700	6.50%	3.25%
£35,701 i £45,000	5.80%	3.40%
£45,201 i £63,100	8.50%	4.25%
£63,101 i £89,400	9.90%	4.95%
£89,401 i £105,200	10.50%	5.25%
£105,201 i £157,800	11.40%	5.70%
Mwy nag £157,801	12.50%	6.25%

A fydd yr Adran 50/50 yn effeithio ar fy yswiriant bywyd, yswiriant salwch a buddion goreswyr?

Difater os ydych yn cyfranu o dan y **Brif Adran** neu'r **Adran 50/50**, byddwch yn cael yswiriant bywyd llawn, yswiriant salwch llawn a buddion goreswyr llawn mewn achos eich marwolaeth.

Sut fydd fy mhensiwn yn cymharu o dan yr Adran 50/50?

Mae'r enghraifft canlynol yn dangos y gwahaniaeth rhwng y cyfraniadau sy'n daladwy a cronïad pensiwn rhwng y **Brif Adran** a'r **Adran 50/50** yn seiliedig ar dal pensiynadwy blyneddol o £18,000.

	Brif Adran	Adran 50/50
Cyfraniadau Gros:	£1,004 (5.80%)	£522 (2.90%)
Cronïad Pensiwn:	£367.35 (1/49fed)	£183.67 (1/98ain)
Buddion Yswiriant Bywyd:	£54,000 (3 x £18,000)	£54,000 (3 x £18,000)

Sut ydw i'n ethol i ymuno â'r Adran 50/50?

Cysylltwch â'ch Cyflogwr / Adran Bensiynau i ofyn am Ffurflen Etholiad 50/50. Nodwch os ydych yn dymuno symud i'r **Adran 50/50** mewn mwy nag un swydd, bydd rhaid i chi gwblhau Ffurflen Etholiad unigol ar gyfer bob swydd.

Am ba hyd y gallaf gyfrannu o dan yr Adran 50/50?

Mae'r **Adran 50/50** wedi ei ddylunio i fod yn opsiwn tymor byr ar gyfer cyfnodau o galedi ariannol. Nid oes uchafswm ar y cyfnod y gallwch aros yn yr **Adran 50/50** o'r cynllun. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses cofrestru awtomatig, byddwch yn cael eich dwyn yn ôl i mewn i'r brif cynllun bob tair blynedd ar y gyfradd ganrannol cyfraniad llawn yn unol a ddyddiad cofrestru awtomatig eich Cyflogwr. Byddai'n rhaid cwblhau Ffurflen Etholiad 50/50 newydd ar yr adeg hono os ydych yn dymuno aros yn yr **Adran 50/50**.

A ydi'n bosib i mi symud yn ôl i'r Brif Adran ar unrhyw adeg?

Ydi, gallwch symud yn ôl i'r **Brif Adran** ar unrhyw adeg drwy hysbysu eich Cyflogwr, drwy gwblhau'r Ffurflen Etholiad briodol. Byddwch wedyn yn dechrau adeiladu buddion llawn yn y **Brif Adran** o'r cyfnod tal nesaf sydd ar gael.

Beth os ydwyf ar gyfnod o ddim tâl oherwydd salwch neu anaf?

Byddwch yn dychwelyd yn awtomatig i'r **Brif Adran** os ydych ar gyfnod o ddim tâl oherwydd salwch neu anaf, a byddwch yn cronni pensiwn ar y gyfradd llawn.

Beth os wyf yn talu cyfraniadau ychwanegol?

Os ydych yn talu cyfraniadau ychwanegol neu yn ystyried talu cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol, cysylltwch â'r Adran Bensiynau i ddarganfod mwy ar sut gallai'r **Adran 50/50** effeithio ar hyn.

A all fy Nghyflogwr ofyn i mi neu fy ngorfodi i ymuno â'r Adran 50/50?

NI ALL eich Cyflogwr ofyn i chi neu eich gorfodi i ddewis ymuno â'r **Adran 50/50** y Cynllun. Fodd bynnag, os dyma'r achos, gallwch roi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau drwy fynd i'w gwefan: www.thepensionsregulator.gov.uk

Cyngor Ariannol

Nodwch ni all y Gronfa Bensiwn ddarparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ol i chi ystyried y wybodaeth hyn, mae'n bosib y bydd angen ichi ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud penderfyniad.

Gwybodaeth Bellach

Arweiniad cyffredinol yn unig y mae'r ffeithlen hon yn ei roi. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Ffôn: **029 2087 2334**

E-bost: pensiynau@caerdydd.gov.uk



Adran 50/50